CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
25 Chwefror 2025, Trwy Zoom am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng, A Williams, S Jones, M Jones, E Williams, G D Williams, R Hughes, C McGregor, D Rees (Cyngor Sir), G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng D ap Rhobert, W Williams, Non ap Dafydd (Cynghorydd Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng S Jones. Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Cyng C McGregor eitem 5.1 a 7.3; Cyng R Hughes eitem 7.5
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 21.01.25. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng C McGregor yn cynnig a Cyng M Jones yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	B5110 40myh - Mae'r Cyngor Sir yn aros am ganllawiau newydd gan Lywodraeth Cymru ar ardaloedd 30/40mya.
4.2	**Llwybrau Cyhoeddus** Talwrn, Llwybr at y cae chwarae, Lon y Capel, Llwybrau y Gors mewn llaw
4.3	**Penbonc/Neuadd Talwrn** - Nid yw'r Clerc wedi derbyn awdurdodiad gan Bwyllgor y Neuadd i fwrw ymlaen â thorri'r tyfiant ar ffin y neuadd. Anfonodd y Cyng R Hughes neges at Gadeirydd y pwyllgor yn ystod ein cyfarfod a derbyniwyd ymateb yn nodi eu bod angen cyfarfod safle.
4.4	**Tro yn Llangwyllog** - Mae'r Clerc wedi gofyn am arwyddion ychwanegol
4.5	**Croesffordd Maenaddwyn** - Dywedodd y Cyng G D Williams fod y drych wedi ei newid ond ei fod yn rhydd. Mae'r drych arall bellach wedi torri hefyd. Bydd y Clerc yn cysylltu gyda'r Cyngor Sir.
4.6	**Sgwar Talwrn (damweiniau) -** Mae'r Adran Priffyrdd wedi cytuno i gyfarfod yr wythnos yn dechrau 10.03.25. Cytunwyd y cynhelir y cyfarfod ddydd Mercher 12.03.25 am 10am yn y Sgwâr. Bydd y Clerc yn trefnu'r cyfarfod ac yn gwahodd Mrs Orme
4.7	**Tyfiant Mynwent Llanddyfnan -** Ym mynwent yr Eglwys y mae y tyfiant. Cytunwyd I dynnu'r mater oddi ar yr agenda gan mai cyfrifoldeb yr Eglwys yng Nghymru ydyw.
	Llofnod…….Cadeirydd 18.03.25

4.8	**Coeden mynwent Llanfihangel Tre'r Beirdd -** Mae'r Clerc wedi gwneud cais trwy yswiriant y cyngor ar gyfer costau sy'n ymwneud â symud y goeden a thrwsio'r wal.
4.9	**Ffynnon ger Cae'r Mynydd** - Deellir bod y gwaith yn anghyflawn ac yn parhau.
5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Cynllunio
5.1	VAR/2025/6 Cais o dan Adran 73A i amrywio amod (13) (Cynlluniau a gymeradwywyd) o ganiatâd cynllunio cyfeirnod 23C325 (newid defnydd yr adeilad allannol i annedd, addasu ac ehangu ynghyd a chodi modurdy a storfa goed) er mwyn cynyddu maint a diwygio dyluniad yr estyniad i'r cefn yn Bryn Brochan, Talwrn – dim sylwadau
	Priffyrdd
5.2	**Sgwar Talwrn** – gweler 4.6
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	**Prosiect Maen Hir -** Mewn ymateb i ymgynghoriad pellach ar brosiect Maen Hir, dywedodd yr aelodau nad oeddent yn erbyn y prosiect. Maent yn erbyn colli tir amaethyddol ac yn teimlo bod digon o leoliadau ar gyfer y paneli solar megis ar doeau busnesau mawr ayb.
6.2	Rhys Williams – tendr torri gwair 2025 £2225
6.3	Tristan Oldham – tendr torri gwair 2025 £3180. Cytunwyd i dderbyn y tendr gan Rhys Williams.
6.4	Bagiau gwastraff cŵn - Trafodwyd cwynion ynghylch bagiau yn cynnwys baw cŵn yn cael eu gadael mewn gwahanol leoliadau yn Nhalwrn gan gynnwys eu stwffio i ddraeniau. Cytunwyd i'r Clerc gysylltu â'r Cyngor Sir i ofyn i'r warden cŵn ymweld â Thalwrn, gofyn faint o ddirwyon sydd wedi eu rhoi yn y flwyddyn ddiwethaf, gosod hysbysiad ar Facebook yn gofyn i'r cyhoedd roi gwastraff mewn biniau a gosod sticeri ar y peiriannau dosbarthu bagiau cŵn yn hysbysu bod biniau ar gael.
6.5	Unllais Cymru – Cyfarfod Blynyddol 2025 - gwahoddiad i'r cyngor fynychu.
6.6	Adrian Williamson - ScoutsMôn - Gweler cofnodion mis diwethaf lle dywedwyd bod Ymddiriedolwyr Elusen llanffinan wedi penderfynu gwerthu tir sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd gan y sgowtiaid. Llofnod…….Cadeirydd 18.03.25

	Mae'r Clerc wedi derbyn llythyr gan Mr Adrian Williamson, ScoutsMôn yn gofyn am gefnogaeth y cyngor cymuned yn arbennig gyda'r canlynol: "*We would like to formally seek your community councils support for the formal purchase of the site from the Lands Charity funds which would go towards the upkeep of Llanffinan Church and would allow the Scouts to continue as the sites custodians going forward benefitting young people on Ynys Môn. If we can ask the Community Council to nominate a representative to help deliver a positive decision for Scouts going forward"* Mae gan y Cyngor Cymuned eisoes gynrychiolydd ar Fwrdd yr Ymddiriedolwyr - y Cynghorydd C McGregor. Er yr hoffai'r Cyngor gefnogi'r sgowtiaid, teimla'r aelodau fod gan yr Ymddiriedolwyr yr hawl i werthu'r tir am bris teg ac nid ydynt yn teimlo y gallant ddechrau trafodaethau.
6.7	Urdd Gobaith Cymru - cais am gyfraniad tuag at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Ynys Môn 2026. Cytunwyd i gyfrannu £500 – Cyng E Williams yn cynnig a Cyng R Hughes yn eilio.
6.8	*Mr Aled Jones - Parthed 8 Maes y Coed, Talwrn – "Anfonaf neges atoch ynglyn a'r uchod sydd yn annedd preifat ac wedi bod felly erioed.* *Mae son fod Cyngor Sir Ynys Mon wedi ei brynu hefo'r bwriad i'w ddefnyddio fel cartref gofal hefo staff y Cyngor yn ei reoli.* *Fel perchen ty yn Maes y Coed 'rwyf eisiau i'r Cynghorwyr fod yn ymwybodol o Covenant/Cyfyngiad a'r weithredoedd tai Maes y Coed sydd yn gwarchod ei defnydd fel cartrefi hollol breifat.* *Dyma fel mae yn darllen a'r ein gwethredoedd pan y prynwyd oddiwrth ddatblygwr y stad.* *Not to use the land hereby conveyed or suffer the same to be used for the purpose of any manufacture trade profession or business of any description or for any purpose other than as a private dwelling-house* *Credaf fod yn berthnasol i holl dai y stad ac mae bwriad y Cyngor yn mynd yn erbyn deddf gwlad.* *Gofynaf i chi ddod a'r mater ger bron y Cynghorwyr a'r frys"* Deallir bod yr eiddo wedi ei brynu gyda grant gan Arolygaeth Gofal Cymru. Mae aelodau'n bryderus na fu unrhyw ymgynghori gyda thrigolion Maes y Coed. Maent hefyd yn teimlo y gallai pwrpas yr annedd ostwng prisiau tai eraill. Gofynnwyd i'r Clerc godi'r materion hyn gyda'r Cyngor Sir, hefyd i ofyn a ydynt wedi cymryd y cyfyngiad i ystyriaeth.
	Llofnod…….Cadeirydd 18.03.25

7	**MATERION ERAILL**
7.1	Tai Lon Newydd - Rhoddwyd y mater hwn ar yr agenda gan y Cyng W Williams. Gan nad oedd y Cyng Williams yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod heddiw, cytunwyd i ohirio'r mater tan y cyfarfod nesaf.
7.2	Bryn Brochan - Mae cerrig cyrb o'r datblygiad wedi'u gadael ger Tai Lon Goch. Cynigiodd y Cyng R Hughes godi'r mater gyda'r datblygwyr.
7.3	Cartref Plant Maes y Coed – gweler 6.8
7.4	Golau fflachio - Dywedodd y Cyng M Jones nad yw'r golau wedi gweithio ers peth amser. Mae'r Clerc wedi ymgynghori â'r gwneuthurwyr ac maent wedi cynghori sut i ddechrau datrys y broblem. Mae'r Clerc wedi bod i gymryd golwg ar y golau. Fodd bynnag, oherwydd cyflymder y traffig yn agosáu at groesffordd Talwrn (o gyfeiriad Pentraeth) nid oedd yn gallu gwneud hynny gan ei fod yn rhy beryglus. Bydd yn gofyn i'r Adran Briffyrdd a allant gynorthwyo.
7.5	Mynwent Llanddyfnan - Mae carreg fedd y diweddar Michael Walker Hughes wedi ei difrodi. Mae'r Clerc wedi gwneud ymholiadau gyda Melvin Rowlands, Ymgymerwr ynglŷn â chost atgyweirio a amcangyfrifir yn £350. Cytunodd yr aelodau i fwrw ymlaen â'r gwaith atgyweirio – Cyng C McGregor yn cynnig a Cyng S Jones yn eilio.
8	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd i dalu'r canlynol:
8.1	Archwilio Cymru 2017-2018 £343.50
9	**MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF**
9.1	Ildio Talwrn
9.2	Gor-yrru Talwrn
9.3	Rwbel - wedi'i ddympio gyferbyn â'r hen siop, Talwrn
	Llofnod…….Cadeirydd 18.03.25